



# Vale School Governors' Association

## Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

### a'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr

# Llythyr Newyddion

## Nodyn gan y Cadeirydd

Fel arfer, gwelwyd nifer dda yn mynychu'r Sesiwn Frifio Addysg a gynhaliwyd yn y Swyddfeydd Dinesig yn gynharach yn ystod y tymor hwn, ac roedd y sesiwn yn llawn deunydd diddorol a da, fel bod Llywodraethwyr yn y Fro yn wybodus am y materion sy'n cael effaith uniongyrchol arnynt.

Yn ystod anerchiad Cynghorydd Chris Elmore, cafwyd rhywfaint o gyffro pan wnaeth aelod o'r gynulleidfa ddatgelu ymddiswyddiad annisgwyl y Gweinidog Addysg.

Heb os, mae Leighton Andrews wedi bod yn ddylanwad mawr, boed hynny yn ddylanwad da neu ddrwg, wrth iddo amlygu canlyniadau PISA rhyngwladol a chyflwyno trefniadau Bandio ar gyfer ysgolion uwchradd ymhlith mentrau eraill.

Mae tasg anodd gan y Gweinidog newydd, Huw Lewis, wrth gyflawni neu addasu ffrwyth ei bolisiau. Mae adroddiad Robert Hill ynghylch Darpariaeth Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol, y mae newydd gael ei gyhoeddi ac y mae modd troi ato ar wefan Llywodraeth Cymru trwy ddilyn y ddolen ganlynol - <http://bit.ly/169eHkj>,

yn debygol o ddylanwadu ar ei ystyriaethau. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 13 Medi.

Mae'r cyfryngau wedi rhoi pwys ar yr awgrymiadau ynghylch rolau llywodraeth leol a'r consortia gwella ysgolion wrth ddarparu addysg, a'r ffaith ei fod yn cefnogi mwy o gydweithio anffurfiol a ffurfiol rhwng ysgolion. Efallai mai Ffederasiynau Ysgolion yw'r ffordd ymlaen.

Ni soniwyd am yr argymhellion cryf iawn ynghylch cryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion. Bydd y rhai hynny ohonoch yr ydych wedi bod yn recriwtio Pennaeth wedi darganfod cyn lleied o bobl sydd ar gael, y maent yn barod i ymgymryd â'r rôl anodd hwn. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ysgolion rhagorol, ac nid oes digon ohonynt yng Nghymru.

Hoffwn ddymuno gwyliau haf braf i chi, wrth i chi ddarllen adroddiad Robert Hill ar y traeth, gan ddychwelyd yn awyddus i wynebu her blwyddyn academaidd newydd ym mis Medi.

**Martin Price**

**Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri**

## Rhifyn 29 Tymor y Haf 2013

### Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

### Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

## Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg,  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Tŷ Provincial, Heol Kendrick,  
Y Barri CF62 8BF

### Manylion cyswllt:

**John Sparks**  
Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)  
**Janine Hoare**  
Cynorthwydd Clerigol  
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820  
E-bost : [JHoare@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JHoare@valeofglamorgan.gov.uk)



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)

Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

**VSGA**

**Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Tŷ Provincial  
Heol Kendrick, Y Barri CF62 4BF**

# Gwobr Dysgu yn y 3ydd Mileniwm – Ysgol Ashgrove o 'safon fyd-eang'

Mae Ysgol Ashgrove yn falch o'r ffaith ei bod wedi sicrhau Gwobr Dysgu yn y 3ydd Mileniwm gan Naace – gan hyrwyddo rôl technoleg wrth roi hwb i addysg.

Bellach, mae Ysgol Ashgrove ymhlith 80 o ysgolion yn unig yn y DU ac yn y byd sydd wedi sicrhau'r Wobr. Mae'r holl ysgolion a gafodd y Wobr eisoes wedi profi i'r byd eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ffordd y mae modd manteisio ar dechnoleg ar gyfer dysgu – maent oll wedi sicrhau'r Marc TGCh.

Mae'r Wobr newydd, fodd bynnag, yn wahanol iawn. Rhoddir ffocws cadarn ar ddysgu; mae technoleg yno, ond bellach mae'n cael ei gymryd yn ganiataol ac mae'n hollbresennol; mae dysgu yn datblygu mewn ffyrdd newydd a chyffrous nawr a nod Gwobr Dysgu yn y 3ydd Mileniwm yw eu harddangos i gymuned yr ysgol.

Mae pethau diddorol yn digwydd yn Ysgol Ashgrove mewn perthynas â dysgu. I ddechrau, mae wedi mabwysiadu safbwynt mwy annibynnol, gan ganolbwyntio yn fwy ar anghenion ei chymuned; mae ei disgyblion yn fwy hunangyfeiriedig, mae eu dysgu yn cael ei bersonoli yn fwy. Mae ganddynt berthnasoedd agos gyda'u cymunedau ac mae'r disgyblion yn ehangu eu gorwelion o ran dyfnder a chwmpas eu dysgu.

Mae ysgolion sy'n ymwneud gyda'r Wobr yn sicrhau ac yn rhannu eu harfer da trwy greu fideo gyhoeddus fer ar gyfer rhieni a chymuned yr ysgol. Mae'r fideo yn rhan greiddiol o'r Wobr ac mae'n cael ei chynorthwyo gan sylwebaeth ychwanegol sy'n esbonio i addysgwyr sut a pham eu bod wedi datblygu eu harfer yn y ffordd y gwnaethant ei ddatblygu. Nid yw'r Wobr wedi'i chyfyngu i reolwyr yr ysgol neu ymgynghorwyr, ac mae'n treiddio'n ddwfn i ysgol, yr athrawon, y disgyblion, y rhieni – pawb y mae ganddynt fudd yng nghymuned ddysgu fyrlymus Ysgol Ashgrove.

Nododd Simon Wilson, Cydlynnydd TGCh: 'Mae Gwobr Dysgu yn y 3ydd Mileniwm wedi bod yn brofiad gwych i'n hysgol ac mae'n dangos pa mor galed y mae'r ysgol yn gweithio i sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio mewn ffordd effeithiol er mwyn cynorthwyo dysgu ein holl ddisgyblion. Mae'r Wobr hon yn gydnabyddiaeth gan Naace, sefydliad cenedlaethol uchel ei barch, o'r ffaith bod Ysgol Ashgrove yn cynnig addysg sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nid yn unig yr ydym yn dangos arfer da ar draws yr ysgol, ond rydym ar y blaen hefyd wrth ddangos sut y gall technoleg gynorthwyo a chyflymu dysgu.'

Dywedodd Lucinda Searle, cadeirydd Bwrdd Rheoli Naace: 'Mae Naace yn canmol yr holl rai sy'n gysylltiedig gyda Gwobr Dysgu yn y 3ydd Mileniwm, ac Ysgol Ashgrove yn arbennig. Mae gennym rai gweithwyr proffesiynol rhyfeddol sy'n gweithio yn ein hysgolion ac y maent yn teimlo'n angerddol ynghylch ymgorffori technoleg er mwyn gwella'r dysgu sy'n gallu digwydd ar gyfer pob plentyn. Mae'r ysgolion hyn o safon fyd-eang. Edrychwn ymlaen at rannu llwyddiant yr ysgolion hyn gyda'r gymuned. Mae hon yn enghraifft arall o'r ffordd yr ydym yn gobeithio datblygu addysg trwy ddefnyddio technoleg mewn ffordd briodol.'

Mae modd gweld manylion llawn trwy droi at <http://www.naace.co.uk/thirdmillenniumlearningaward>

Nodiadau i Olygyddion

- Mae'r Fframwaith Hunanadolygu yn offeryn ar-lein a lansiwyd ym mis Ebrill 2006 er mwyn cynorthwyo ysgolion i nodi, gwella a meincodi'r defnydd o TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu) ym maes dysgu, addysgu a rheoli ysgolion. Bydd ysgolion yn gwerthuso eu cynnydd yn erbyn graddfa sy'n cynnwys pedair lefel ar gyfer agweddau ar ddatblygiad dan chwe phrif elfen. Ers ei gyflwyno, mae dros 17400 o ysgolion wedi ei ddefnyddio er mwyn adolygu a chynllunio eu defnydd o dechnoleg. [www.naacesrf.com](http://www.naacesrf.com)
- Mae'r Marc TGCh yn rhan annatod o'r Fframwaith Hunanadolygu. Mae'n cydnabod cyflawniadau ysgol wrth gyrraedd safon o aeddfedrwydd o ran ei defnydd o dechnoleg. Mae'r achrediad dewisol hwn yn cynnig tystiolaeth o'r ffaith bod ysgol wedi cynnal adolygiad helaeth a thrylwyr o'i defnydd o dechnoleg. Dyfarnir y Marc TGCh pan fydd ysgol wedi bodloni aseswr o'r ffaith bod ei chynlluniau a'i darpariaeth wedi bodloni neu ragori ar y safon genedlaethol. Fel arfer, bydd ymweliadau yn para hanner diwrnod ac fe allant gynnwys adolygiad o gynlluniau cwricwlwm, archwilio systemau a chyfweliadau gyda staff a disgyblion. Ym mis Mehefin 2013, roedd dros 2600 o ysgolion wedi sicrhau'r Marc TGCh ers i'r cynllun gychwyn. [www.naace.co.uk/ictmark](http://www.naace.co.uk/ictmark)
- Naace yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer y rhai sy'n ymwneud gyda datblygu addysg trwy ddefnyddio technoleg mewn ffordd briodol. Mae Naace yn gweinyddu'r Marc TGCh ac mae'n cynnig cymorth ar ffurf desg gymorth ar gyfer y Fframwaith Hunanadolygu. Naace wnaeth greu cynllun Naacemark for Schools, sef rhagflaenydd Marc TGCh. [www.naace.co.uk](http://www.naace.co.uk)

# Clodagh yn cyrraedd y brig!

Mae'r haul yn gwenu, felly gwn ei bod yn ymddangos yn adeg rhyfedd i mi sôn am y Nadolig. Fodd bynnag, gan na fu modd i mi gyhoeddi canlyniadau ein cystadleuaeth ailgylchu cardiau Nadolig yn y rhifyn blaenorol o'r cylchlythyr hwn, a gan bod ein hysgolion wedi gwneud mor dda unwaith eto, hoffwn rannu eu llwyddiannau gyda chi.

Seren ddisglair newydd a wynebaw cyfarwydd bendigedig oedd thema rhifyn 2013 cystadleuaeth ailgylchu boblogaidd y Fro.

Eleni, bu 30 o ysgolion y Fro yn casglu cardiau i'w hailgylchu fel rhan o gynllun Cyngor Bro Morgannwg, gan ddewis cymryd rhan neu ymgeisio mewn cystadleuaeth er mwyn dod o hyd i'r disgybl a'r ysgol a wnaeth gasglu'r swm mwyaf. Seiliwyd cystadleuaeth yr ysgol ar niferoedd y disgyblion yn ogystal â nifer y cardiau a gasglwyd, gan olygu bod gan ein hysgolion lleiaf hyd yn oed siawns o ennill.

Roedd Mike Farrell, Pennaeth (adeg y cynllun, ond mae Mike bellach wedi ymddeol) Ysgol Erw'r Delyn ym Mhenarth wrth ei fodd pan glywodd am lwyddiant ei ysgol "Roeddem wrth ein bodd i ennill y wobwr gyntaf yng nghategori'r ysgolion am yr ail flwyddyn, sef gwobr o £100. Ysgol fach ydym, gyda 50 o ddisgyblion, ond diolch i gefnogaeth wych y gymuned, mae'n cyfanswm o dros 11,000 o gardiau yn cyfateb gyda 225 o gardiau fesul disgybl ar gyfartaledd."

Llwyddodd Ysgol Gynradd St Illtyd yn Llanilltud Fawr i sicrhau'r ail wobwr, £75, a daeth Ysgol Iau Murch yn drydydd, a'u cyfartaledd nhw oedd ychydig dan 100 o gardiau wedi'u casglu fesul disgybl.

Gwelwyd un disgybl o Benarth yn cyrraedd y brig eleni am ei hymdrechion ailgylchu. Llwyddodd Clodagh McKechnie o Ysgol Stanwell i gasglu 7,250 o gardiau, gan ennill cerdyn rhodd a oedd yn werth £100, ac roedd yn wên o glust i glust wrth gasglu'r wobwr aur.

Enillodd Robbie Hawkins o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St David y wobwr arian, sef £75, ar ôl casglu swm anhygoel sef 6,030 o gardiau, ac roedd Ceri Jauncey o Ysgol Gynradd St Illtyd yn drydydd.

Mynegodd Cynghorydd Rob Curtis, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Gwasanaethau Gweladwy, ei fodlonrwydd gyda chefnogaeth yr ysgolion tuag at y cynllun pan ddywedodd "Am amrywiaeth o resymau, a'r gost yn rhannol, credaf ein bod yn anfon llai o gardiau Nadolig y dyddiau hyn. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod y cynllun hwn yn boblogaidd ymhlith ein hysgolion sy'n ei ddefnyddio er mwyn codi ymwybyddiaeth o ailgylchu a gweithio gyda'u cymunedau lleol."


Gorffennodd Rob trwy ddweud "Diolch i'r ysgolion a wnaeth gymryd rhan ac i'w rhwydweithiau cymorth rhyfeddol o rieni, gwarcheidwaid, staff, llywodraethwyr, teuluoedd a'n preswylwyr ailgylchu brwd yn y Fro, y maent oll wedi sicrhau bod y cynllun hwn wedi bod yn gymaint o lwyddiant"

**Sam Harrison, Swyddog Ymwybyddiaeth Gwastraff**

Am wybodaeth bellach

ffoniwch: 01446 700111 neu anfonwch e-bost at: [visible@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:visible@valeofglamorgan.gov.uk)





## Cymuned Dysgu Proffesiynol (CDP) Cyfnod Allweddol 3 EMAS/TES ynghylch yr Ail Ryfel Byd

Mae disgyblion o Ysgol Gyfun y Barri, Ysgol Gyfun y Bont-faen, Ysgol gyfun Llanilltud Fawr, Ysgol Gyfun St Cyres ac Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn wedi bod yn cydweithio ar brosiect a oedd yn edrych ar yr Ail Ryfel Byd. Bu disgyblion yn ymchwilio i effaith yr Ail Ryfel Byd mewn gwahanol rannau o'r byd, o Wlad Pwyl i'r Pasiffig.

Roedd y prosiect yn rhoi cymorth Llythrennedd wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig, disgyblion y mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddynt a disgyblion y maent yn Deithwyr, gan fanteisio ar fodel Cymuned Dysgu Proffesiynol. Diben cyffredinol y prosiect fu codi safonau gwaith ysgrifennu yng Nghyfnod Allweddol 3.

Roedd nodau'r prosiect fel a ganlyn:

- datblygu adnodd amlieithog i'w ddefnyddio ar draws yr ALL
- gwella lefelau ysgrifennu
- ymgysylltu gyda theuluoedd
- ymestyn trefniadau cydweithio rhwng ysgolion
- ymgysylltu disgyblion y maent wedi ymddieithrio.

Cyfarfu EMAS a TES gyda staff yr ysgolion er mwyn nodi disgyblion yr oeddent mewn perygl o dangyflawni. Yn ogystal, defnyddiwyd data er mwyn hysbysu'r gweithwyr proffesiynol ynghylch pa ddisgyblion y byddent yn addas. Mae EMAS a TES wedi bod yn monitro'r cyrhaeddiad bob wythnos er mwyn olrhain y cynnydd a chanolbwyntio natur y cymorth sydd ar gael yn ôl yn yr ysgol.

Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg am chwe wythnos ac mae diddordeb eglur eisoes wedi cael ei fynegi gan y disgyblion ynghylch yr Ail Ryfel Byd o bersbectif byd-eang, o Wlad Pwyl i'r Pasiffig. Mae 100% o'r disgyblion sydd wedi bod yn mynychu wedi dangos lefelau ysgrifennu uwch. Mae'r rhai yr oeddent yn amharod i ddarllen yn flaenorol, bellach yn chwilio am lyfrau ac yn eu benthyca.

Bu'r prosiect yn llwyddiannus iawn. Trwy gyfrwng y prosiect, paratowyd adnodd hanes amlieithog mewn partneriaeth gyda theuluoedd. Mae'r disgyblion a fu'n rhan o'r prosiect wedi gwella'u sgiliau ysgrifenedig gymaint ag o leiaf un lefel ysgrifennu o fewn CC. Gwelwyd 80% o'r teuluoedd a dargedwyd yn ymgysylltu gyda'r broses.



## Prosiect Cymwysterau Iaith y Cartref Mai 2013

Bu'r prosiect yn trefnu ac yn goruchwyllo arholiadau TGAU a Lefel A ar gyfer disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol (EAL) mewn tair ysgol gyfun ym Mro Morgannwg. At ei gilydd, roedd 25 o ddisgyblion yn sefyll arholiadau mewn 13 o wahanol ieithoedd a ddarparwyd gan 5 o wahanol fyrddau arholi. Roedd oedran y disgyblion yn amrywio o flwyddyn 9 i flwyddyn 11.

Yn ystod y prosiect, cysylltwyd gydag ysgolion er mwyn trefnu sesiynau adolygu ar gyfer disgyblion y byddent yn sefyll arholiadau. Darparodd EMAS fanylebion arholiadau i ysgolion ar gyfer pob arholiad, i'w dosbarthu i'r myfyrwyr. Darparwyd cyfieithwyr gan y tîm ar gyfer sesiynau adolygu a chysylltwyd gyda swyddogion arholiadau er mwyn cydlynu arholiadau.

Bu'r prosiect yn llwyddiant oherwydd y gwelwyd cyfanswm o 25 o ddisgyblion yn cymryd rhan. Bu perthnasoedd da gydag ysgolion o gymorth i'r broses, gan sicrhau bod y disgyblion yn cael eu cynorthwyo mewn ffordd dda. Bu'r prosiect hwn yn fodd i ddisgyblion ddathlu eu hiaith eu hunain ac i sicrhau cymhwyster ynddi. Roedd y cyfle hwn i'r disgyblion yn codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth yn yr Ysgolion Uwchradd. Bu'n brofiad cadarnhaol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 gan ei fod wedi rhoi'r cyfle iddynt gael dirnadaeth o arholiadau TGAU a chyfle i ddysgu sgiliau arholiad yn gynharach na'u cymheiriaid nad ydynt yn ddisgyblion EAL.

## Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2012-14

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig a dau Gynrychiolydd y maent yn Rhiant-lywodraethwyr (un o'r sector Cynradd ac un o'r sector Uwchradd).

Rhif.	Teitl	Llythyren gyntaf	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô
2	Cyng	C	Elmore	Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gynradd Romilly
3	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Romilly
4	Mrs	S	Hodges	Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Sant Baruc
5	Mr	P	Lewis	Ysgol Gyfun y Bont-faen
5	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres
7	Mr	M	Mason	Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr ac Ysgol Dewi Sant
8	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn
9	Mrs	C	Roach	Ysgol Gynradd Llangan
10	Mr	P	Sampson	Ysgol Gynradd Tregatwg
11	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr ac Ysgol Gwaun y Nant
12	Mr	S	Williams	Ysgol Gynradd y Rhws
13	Mrs	P	Hardy	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints
14	Mrs	S	Williams	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints
15	Mrs	K	Kemp	Ysgol Gynradd Llancarfan
PGR - Prim	Mr	L	Kellaway	Ysgol Gyfun Bro Morgannwg/Ysgol Nant Talwg
PGR - Sec	Dr	C	Brown	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr

Dylai unrhyw lywodraethwyr y mae ganddynt ddi-ddordeb mewn bod yn aelod o Bwyllgor Rheoli VSGA gysylltu â John Sparks trwy anfon e-bost at [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)

# Y Gwasanaeth Lles Addysg yn Gweithredu er mwyn Gwella lefelau Presenoldeb

Mae presenoldeb yn fater pwysig iawn mewn ysgolion. Bydd disgyblion y mae ganddynt lefelau presenoldeb da yn llwyddo i sicrhau canlyniadau gwell ym Mlwyddyn 11 na'u cymheiriaid sy'n colli ambell i ddiwrnod y mis yn rheolaidd.

Yn gyffredinol, mae'r lefelau presenoldeb yn dda yn ysgolion y Fro. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) yn parhau i weithio'n galed er mwyn cynorthwyo ysgolion i wella. Dadansoddwyd data ynghylch presenoldeb ac fe'i ddefnyddiwyd er mwyn nodi ysgolion lle y mae presenoldeb a/neu absenoldeb anawdurdodedig yn destun pryder.

Dros yr wythnosau diwethaf, rhannwyd y gwaith dadansoddi hwn gyda phenaethiaid cynradd. Mae'r trafodaethau wedi cynnwys materion penodol i bob ysgol ond hefyd, maent wedi amlygu'r defnydd o'r Canllaw Arfer Da. Datblygwyd hwn gan GLIA ac mae'n amlinellu strategaethau ac arferion gwaith a ddefnyddir gan ysgolion yn y Fro, y maent wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau presenoldeb. Atgoffwyd penaethiaid o lyfryn Mae Presenoldeb yn Bwysig, sy'n amlygu pwysigrwydd presenoldeb plentyn i rieni.

Mae'r camau sy'n cael eu cymryd gan ysgolion yn cynnwys:

- Diweddarau systemau cofnodi
- Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol ynghylch materion yn ymwneud â phresenoldeb, gan gynnwys cofnodi
- Cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael i staff addysgu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r mater o fewn yr ysgol
- Monitro mwy rheolaidd gan staff yr ysgol
- Ystyried presenoldeb gyda'r corff llywodraethu
- Pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb ar wefan yr ysgol ac yn ystod nosweithiau rhieni
- Cynyddu'r cyfathrebu gyda rhieni disgyblion y mae lefel eu presenoldeb yn wael
- Gosod targed ynghylch presenoldeb disgyblion ar gyfer yr ysgol
- Gwobrwyo disgyblion y mae lefel eu presenoldeb yn dda
- Newid amser gwasanaeth

Os bydd lefel bresenoldeb disgybl yn gostwng dan 80% dros gyfnod o amser, er gwaethaf holl ymdrechion yr ysgol, dylid gwneud cyfeiriad at GLIA am gymorth mwy dwys.

Caiiff galwadau ffôn eu monitro a chynhelir ymweliadau dilynol dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf i weld y cynnydd sy'n cael ei sicrhau gan ysgolion. Mae gweithio gyda phenaethiaid wedi bod yn brofiad plerusu iawn, ac maent yn awyddus i barhau i wneud gwelliannau ar gyfer y disgyblion yn eu hysgolion.

## Cylchlythyr Llywodraethwyr

Bydd Strategaeth Blas am Oes (A4L) Llywodraeth Cymru yn dod i rym ym mis Medi 2013 ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru. Mae'n bleser mawr gennyf adrodd bod yr holl Ysgolion Cynradd a'r 6 Ysgol Uwchradd a reolir gan Wasanaethau Arlwy y Fro yn cydymffurfio gyda'r safonau ynghylch bwyd a maeth. Mae hyn wedi arwain at waith aruthrol gan y tîm maeth o fewn gwasanaeth arlwy y Cyngor.

Bellach, mae gan bob Ysgol Gynradd eu ffeil A4C, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ynghylch maeth a'r fwydlen bresennol a gynigir. Bydd y ffeil hon yn ddogfen allweddol ar gyfer Arolygwyr Estyn os mai hyn fydd yn digwydd ar gyfer yr holl Arolygiadau Ysgolion yn y dyfodol o fis Medi. A fydddech gystal â gofyn i'ch Pennaeth adolygu eich copi chi. Bydd copïau wedi'u hawdurdodi ar gyfer y 6 Ysgol Uwchradd sy'n cydymffurfio ar gael o fis Medi 2013.

Fel y nodwyd yn Fersiwn 6 Strategaeth A4L, nid y staff arlwy yn unig sy'n gyfrifol am ei gweithredu, ac mae Penaethiaid a Llywodraethwyr yn atebol am sicrhau bod A4L yn cael ei gweithredu fel rhan o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009. Ceir canllawiau sy'n ymwneud gyda Strategaeth A4L a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethwyr. Mae modd lawrlwytho'r ddogfen hon hefyd trwy droi at [www.wales.gov.uk/appetiteforlife](http://www.wales.gov.uk/appetiteforlife)

mae'n bwysig  
i blant fynd  
i'r ysgol...



...pan fo eu dyfodol  
yn y fantol

